Monitro Rhaglenni Achrededig ar gyfer Prosesau a Gofynion Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA)

Hydref 2021

Cynnwys

1 Rhestr termau

2 Diben y ddogfen hon

3 Cefndir statudol a diben monitro

4 Egwyddorion y broses fonitro

5 Y broses fonitro

- **5.1 Aelodaeth y Pwyllgor Monitro**
- **5.2 Amserlen y broses fonitro**
- **5.3 Paratoi ar gyfer yr ymweliad monitro**
- **5.4 Ymweliad monitro**
- **5.5 Canlyniadau**
- **5.6 Perthynas â phrosesau eraill**
- **5.7 Ysgogiadau monitro cynnar neu fonitro ychwanegol**

6 Amserlen fonitro

- **6.1 Rhaglenni newydd ar gyfer achrediad cychwynnol**
- **6.2 Amserlen ar gyfer monitro rhaglenni AGA achrededig**

7 Dewisiadau iaith

8 Ffioedd achredu

- **Atodiad A Monitro gan CGA - Rhestr Wirio Tystiolaeth**
- **Atodiad B Templed crynhoi adroddiad newid ar gyfer rhaglen AGA achrededig**

Am ragor o wybodaeth:

Cyswllt: Achredu AGA, Cyngor y Gweithlu Addysg
Cyfeiriad: 9fed Llawr, Tŷ Eastgate, 35-43 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0AB
Ffôn: 029 2046 0099
E-bost: iteaccreditation@ewc.wales
Gwefan: www.ewc.wales/ITEaccreditation

1 Rhestr termau

Achredu – Mae achredu rhaglenni AGA yn fath o broses sicrhau ansawdd sy'n asesu bod y rhaglenni'n cydymffurfio â'r Meini Prawf. Mae'r ffordd o achredu AGA yn ffactor hanfodol wrth sicrhau gwelliant mewn perfformiad addysgol mewn ysgolion. Gall rhaglenni AGA gael eu hachredu am gyfnod o 5 mlynedd, ar y mwyaf.

Pwyllgor Achredu – Pwyllgor o hyd at 5 aelod, wedi'u cymryd o Fwrdd Achredu AGA, sy'n ymgymryd ag ymweliad asesu achrediad cychwynnol.

Meini Prawf Achredu, "Y Meini Prawf" – *Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru* Llywodraeth Cymru.

Achos pryder – Mae proses ar wahân ar waith gan CGA ar gyfer achos pryder a chaiff y broses hon ei sbarduno ar unwaith os bydd Pwyllgor Monitro'n penderfynu bod problemau diffyg cydymffurfio arwyddocaol â'r Meini Prawf Achredu ar lefel rhaglen. Bydd CGA yn anfon llythyr i'r bartneriaeth yn cadarnhau canlyniad y broses fonitro ac yn amlinellu'r meysydd penodol y mae'n rhaid i'r bartneriaeth fynd i'r afael â nhw.

Cydymffurfio – Mae'n gysylltiedig â rhaglen AGA a sut mae'n bodloni *Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru* Llywodraeth Cymru

Monitro amodau – Pan fydd rhaglen AGA yn cael ei hachredu yn ddarostyngedig i amodau, rhaid i'r Pwyllgor Achredu fonitro ymagwedd y bartneriaeth at yr amodau cyn bod y rhaglen yn cychwyn.

CGA – Cyngor y Gweithlu Addysg. Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yw rheoleiddiwr annibynnol y gweithlu addysg yng Nghymru, sy'n cwmpasu athrawon a staff cymorth dysgu mewn ysgolion a lleoliadau addysg bellach, gweithwyr ieuenctid/cymorth ieuenctid cymwysedig ac ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith. Sefydlwyd CGA gan Ddeddf Addysg (Cymru) 2014. O dan y Ddeddf, ad-drefnwyd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC) a rhoddwyd enw newydd arno, sef Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA). Daeth CGA i rym ar 1 Ebrill 2015.

Arolygu – Mae Estyn yn arolygu addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Dylai arolygu fod yn brofiad cadarnhaol i ddarparwyr a'u cymunedau. Mae arolygiadau Estyn yn helpu i:

- sicrhau'r gorau i bob dysgwr
- cynnig cyfle i arweinwyr, athrawon a staff cymorth gyfrannu'n broffesiynol ac yn adeiladol
- rhannu profiadau o bob cwr o Gymru i gefnogi gwelliant.

AGA – Addysg Gychwynnol Athrawon

Bwrdd Achredu AGA, "y Bwrdd" – Mae CGA yn dirprwyo cyfrifoldeb am achredu rhaglenni AGA i'w Fwrdd Achredu AGA (y Bwrdd). Mae'r Bwrdd yn cynnwys deuddeg aelod, gan gynnwys y Cadeirydd a dau ddirprwy, bob un ohonynt yn dod o wahanol feysydd addysg.

Monitro – Yn unol â Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2017 ("Gorchymyn 2017"), mae gan CGA gyfrifoldeb statudol am:

> (b) fonitro cydymffurfedd cyrsiau neu raglenni astudio achrededig hyfforddiant cychwynnol athrawon â'r meini prawf achredu.

Diben monitro gan CGA yw sicrhau bod rhaglenni AGA achrededig yn parhau i gydymffurfio â'r Meini Prawf Achredu trwy gydol y cyfnod achredu.

Pwyllgor Monitro – Yn nodweddiadol, mae Pwyllgor yn cynnwys tri aelod, wedi'u cymryd o Fwrdd Achredu AGA, sy'n cynnal ymweliad asesiad monitro.

Partneriaeth – Darparwr rhaglen (neu raglenni) AGA yng Nghymru, yn cynnwys Prifysgol, ysgolion arweiniol ac ysgolion partner.

Rhaglen – Rhaglen academaidd o addysg gychwynnol athrawon (AGA) yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglenni BA (Anrh.) israddedig a rhaglenni'r Dystysgrif Addysg Ôl-raddedig (TAR).

Ailachredu - Gellir achredu rhaglen AGA am gyfnod o hyd at 5 mlynedd, ar y mwyaf. Os bydd partneriaeth yn bwriadu cynnig y rhaglen y tu hwnt i'r cyfnod achredu cychwynnol, bydd angen iddi gyflwyno'r rhaglen am gyfnod achredu pellach. Yr enw ar y broses hon yw ailachredu. Bydd dogfennau achredu a monitro a gasglwyd trwy gydol y cyfnod achredu blaenorol yn llywio'r ailachredu.

2 Diben y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r egwyddorion a'r broses y bydd Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yn eu dilyn wrth fonitro a yw rhaglen achrededig yn parhau i gydymffurfio â'r Meini Prawf Achredu.

Mae'n berthnasol i bob rhaglen Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) sydd wedi'i hachredu yng Nghymru.

Defnyddir y ddogfen hon ar y cyd â:

- meini prawf Llywodraeth Cymru ar gyfer achredu rhaglenni AGA yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys y safonau ar gyfer Statws Athro Cymwysedig (SAC)
- Rheoliadau'r Gweithlu Addysgu (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) 2017.

3 Cefndir statudol a diben monitro

Yn unol â Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2017 ("Gorchymyn 2017"), mae gan CGA gyfrifoldeb statudol am:

> (b) fonitro cydymffurfedd cyrsiau neu raglenni astudio achrededig hyfforddiant cychwynnol athrawon â'r meini prawf achredu.

Diben monitro gan CGA yw sicrhau bod rhaglenni AGA achrededig yn parhau i gydymffurfio â'r Meini Prawf Achredu trwy gydol y cyfnod achredu.

4 Egwyddorion y broses fonitro

Cytunodd CGA, Llywodraeth Cymru, Estyn a'r partneriaethau AGA ar yr egwyddorion allweddol a'r ddealltwriaeth y seiliwyd y broses fonitro arnynt, sef:

- gwella'r system

  Bwriedir i'r broses fonitro fod yn adnodd adeiladol a datblygiadol sy'n ychwanegu gwerth at ansawdd AGA, sy'n cyfrannu at ddatblygiad systematig partneriaethau ac at welliant parhaus rhaglenni AGA. Bydd dadansoddi adroddiadau monitro'n arwain at ddarganfod themâu a chipolygon a'u rhannu ar draws pob partneriaeth AGA er mwyn helpu gwella ansawdd trafodaeth ddeallusol a thrwytho diwylliant o rannu a chydweithredu yn y sector AGA cyfan a, gobeithio, dwysau dysgu a datblygiad proffesiynol ar draws Cymru.

- bod craffu trylwyr yn seiliedig ar dystiolaeth yn sylfaen iddo

Mae'r broses fonitro wedi'i hadeiladu ar graffu trylwyr yn seiliedig ar dystiolaeth, a fydd yn ysgogiad ar gyfer trafodaeth ystyrlon. Bydd y gwaith casglu data, dadansoddi data ac ysgrifennu adroddiadau, sy'n rhan annatod o gylchoedd hunanwerthuso a chynllunio gwelliant partneriaethau, yn cael eu defnyddio'n llawn. Bydd yn defnyddio systemau a data y mae sefydliadau'n eu defnyddio eu hunain i fonitro eu bod yn parhau i gydymffurfio â Meini Prawf Achredu AGA ac i wreiddio'u gweledigaeth am addysg broffesiynol o ansawdd uchel. Er budd trafodaeth golegol ac ystyrlon, bydd y gwerthusiad o'r dystiolaeth a'r barnau proffesiynol sy'n llunio rhan o'r broses fonitro yn cael eu trafod gyda'r bartneriaeth a, lle y bo'n bosibl, cytunir arnynt gyda'r bartneriaeth. Os na fydd consensws yn bosibl, bydd adroddiad am hyn yn y llythyr canlyniadau, ynghyd â rhesymau'r bartneriaeth dros beidio â chytuno â'r penderfyniad. Pe bai pryder y bartneriaeth yn ymwneud â chywirdeb ffeithiol y wybodaeth a gyflwynir, bydd CGA yn mynd i'r afael â'r gwall honedig yn unol â hynny.

- eu sefydlu trwy ymgynghoriad a'u datblygu ar y cyd

  Mae CGA wedi llunio paramedrau'r broses a'r fethodoleg trwy ymgynghori â phartneriaethau. Rhan annatod o'r trafodaethau oedd y ddealltwriaeth fod sicrhau 'ffydd' y naill tuag at y llall o bwysigrwydd canolog. Bydd yr ymweliad monitro, o fewn y paramedrau a amlinellwyd, yn cael ei addasu'n unigol trwy drafodaeth a chyd-ddatblygu â phartneriaethau unigol. Bydd hyn yn sicrhau bod partneriaethau'n cael cyfle i ddangos bod eu hymarfer proffesiynol yn ymgorffori'r Meini Prawf Achredu yn eu cyfanrwydd ac, yn benodol, bod amodau ac argymhellion eu hachrediad wedi'u gwreiddio'n drylwyr. Caiff partneriaethau eu hannog i ddangos ymarfer effeithiol trwy arddangos eu cryfderau unigol. Er budd craffu datblygiadol, bydd partneriaethau hefyd yn cael eu grymuso i rannu'u meysydd allweddol i'w gwella gyda'r Pwyllgor Monitro, a cheisio arweiniad ynghylch eu heriau. Bydd y Pwyllgor Monitro'n ymrwymo i gydweithio â phartneriaethau i'w cynorthwyo i wella ar draws pob maes sy'n berthnasol i'r Meini Prawf Achredu.

- osgoi baich diangen ar bartneriaethau

  Bwriedir i'r broses fonitro lywio a chyfrannu at broses ailachredu CGA a fydd, o ganlyniad, yn cael ei symleiddio ac yn llai beichus. Yn benodol, mae CGA ac Estyn wedi ymrwymo i sicrhau mai eu hegwyddor arweiniol allweddol wrth gyflawni eu cyfrifoldebau statudol perthnasol (monitro gan CGA ac arolygu gan ESTYN) fydd peidio ag achosi baich diangen i bartneriaethau. Mae'r ddau sefydliad yn deall yr angen am wahaniaeth ategol ond clir rhwng eu rolau a natur a sail eu barnau. Deallant fod angen cadw at egwyddorion a phrotocolau caeth ar gyfer rhannu gwybodaeth.

5 Proses fonitro CGA

Bydd proses fonitro CGA yn sicrhau bod rhaglenni AGA achrededig yng Nghymru yn parhau i gydymffurfio â *Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru* Llywodraeth Cymru (y "Meini Prawf Achredu"). Bydd monitro'n digwydd ar lefel rhaglen.

Pe bai unrhyw ddiwygiadau'n cael eu gwneud i'r Meini Prawf Achredu, nid oes disgwyl fel arfer i bartneriaethau wneud newidiadau i raglenni i fodloni unrhyw feini prawf newydd a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod achredu. Yn hytrach, byddid yn mynd i'r afael â newidiadau o'r fath yn ystod y cam ailachredu, fel arfer.

Bydd rhaglenni'n cael eu monitro yn unol â fersiwn y Meini Prawf Achredu a ddefnyddiwyd wrth achredu'r rhaglen.

5.1 Aelodaeth y Pwyllgor Monitro

Bydd Monitro'n cael ei gynnal gan bwyllgor sy'n cynnwys o leiaf dri aelod o'r Bwrdd Achredu AGA ac, yn nodweddiadol, byddai'n cynnwys:

- Cadeirydd y pwyllgor achredu gwreiddiol
- aelod na wnaeth gymryd rhan yn y pwyllgorau achredu blaenorol
- aelod(au) eraill o'r Bwrdd Achredu AGA
- cynrychiolydd o'r bartneriaeth*

*Bydd cyfranogiad Cynrychiolydd y bartneriaeth yn caniatáu iddo gymryd rhan yn nhrafodaeth werthusol, seiliedig ar dystiolaeth, y Pwyllgor Monitro, a chael ei lywio gan y drafodaeth honno. Bydd hyn yn gwella tryloywder y broses ac yn rhoi cipolwg i'r bartneriaeth i farnau proffesiynol y Pwyllgor, ac mae'n gyson â nodau datblygiadol y broses fonitro. Bydd Cynrychiolydd y bartneriaeth yn cael ei wahodd i gymryd rhan yn yr holl gyfarfodydd a thrafodaethau a drefnwyd fel rhan o'r ymweliad, ac eithrio'r cyfarfod penderfynu olaf, y bydd Cynrychiolydd y bartneriaeth yn cael ei wahodd i fod yn bresennol ynddo ond ni all gymryd rhan yn y penderfynu.

Bydd swyddogion CGA yn cefnogi'r Pwyllgor.

5.2 Amserlen y broses fonitro

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gweithgarwch monitro a'r amseriadau disgwyliedig:

Amseriad	**Gweithgaredd**
2 fis cyn yr ymweliad monitro	Bydd CGA a'r bartneriaeth yn trafod a fyddai'n ddoeth cynllunio amserlenni monitro ar wahân, neu rannol ar wahân, ar gyfer rhaglenni unigol ac, wedi hynny, rhoi amserlen fonitro drafft ac aelodaeth arfaethedig y Pwyllgor Monitro i'r bartneriaeth. Bydd CGA yn gofyn i'r bartneriaeth gadarnhau'r gofynion iaith ar gyfer yr ymweliad. Bydd CGA yn gofyn am i gynrychiolydd o'r bartneriaeth fod yn rhan o'r Pwyllgor Monitro.
6 wythnos cyn yr ymweliad	Bydd CGA yn cadarnhau'r amserlen fonitro gyda'r Pwyllgor Monitro a'r bartneriaeth. Bydd y bartneriaeth yn cadarnhau'r gofynion iaith gyda CGA. Bydd CGA yn gofyn am dystiolaeth gan y bartneriaeth. Bydd CGA yn gofyn am adroddiad crynhoi newid gan y bartneriaeth.
Mis cyn yr ymweliad	Bydd CGA a'r Pwyllgor Monitro'n cael dogfennau tystiolaeth gychwynnol a'r adroddiad crynhoi newid gan y bartneriaeth.
3 wythnos cyn yr ymweliad	Bydd y Pwyllgor Monitro'n nodi pwy o'r bartneriaeth sydd angen bod yn bresennol yn y cyfarfodydd monitro. Bydd CGA yn hysbysu'r bartneriaeth am hyn.
Ymweliad monitro	**Gweler amserlen enghreifftiol yr ymweliad monitro ar dudalen 10 y ddogfen hon.**
O fewn 15 niwrnod wedi'r ymweliad	Bydd CGA yn anfon llythyr canlyniadau'r monitro i'r bartneriaeth.
Ar ôl anfon y llythyr i'r bartneriaeth	Bydd CGA yn rhannu canlyniad y monitro gyda Llywodraeth Cymru, Estyn a CCAUC.

5.3 Paratoi ar gyfer yr ymweliad monitro

Ddeufis cyn ymweliad monitro, bydd CGA yn hysbysu'r bartneriaeth, yn darparu amserlen cyfarfodydd ac yn cadarnhau aelodaeth y Pwyllgor Monitro. Bydd y bartneriaeth yn cael cyfle i ymateb a chodi unrhyw wrthdaro buddiannau posibl, a rhoi enw Cynrychiolydd y Bartneriaeth i'r Pwyllgor.

Bydd CGA yn gweithio gyda'r bartneriaeth i gasglu tystiolaeth o leiaf fis cyn ymweliad monitro. Mae'r templed casglu tystiolaeth, sydd i'w lenwi gan CGA a'r bartneriaeth, ynghlwm yn Atodiad A.

Bydd angen i'r bartneriaeth lenwi ffurflen grynhoi'r adroddiad newid o leiaf fis cyn yr ymweliad monitro, i amlygu unrhyw addasiadau neu welliannau a wnaed i'r rhaglen(ni) ers achredu. Diben adroddiad crynhoi newid yw lleihau'r baich ar bartneriaethau wrth baratoi am ailachredu. Dylai'r bartneriaeth ddefnyddio'r templed hwn i ddisgrifio'r holl newidiadau a wnaed ers y tro diwethaf i CGA ystyried y rhaglen. Mae'r templed crynhoi adroddiad newid ynghlwm yn Atodiad B.

Yn nodweddiadol, bydd deuddydd yn cael eu hamserlennu ar gyfer ymweliad monitro CGA, a bydd lleoliad yr ymweliad yn cael ei benderfynu trwy drafodaeth â'r bartneriaeth. Gall ddigwydd mewn ysgol arweiniol, yn y SAU neu, o dan rai amgylchiadau eithriadol, yn rhithwir. Os bydd gan bartneriaeth fwy nag un rhaglen achrededig ac, mewn trafodaeth â'r bartneriaeth, ystyrir y dylai rhai elfennau o'r ymweliad monitro ymwneud yn benodol â rhaglen, bydd hyd yr ymweliad monitro'n cael ei ymestyn yn briodol. Os oes modd, mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor Monitro hefyd am ymweld â safle ysgol arweiniol neu ysgol rwydwaith a/neu SAU i weld elfennau penodol o'r rhaglenni ar waith, fel gweithdy neu seminar. Bydd y sail resymegol dros unrhyw ymweliad â safle yn cael ei rhoi i'r bartneriaeth.

5.4 Ymweliad monitro

Yn nodweddiadol yn ystod yr ymweliad monitro, bydd y Pwyllgor Monitro'n cynnal tri chyfarfod â chynrychiolwyr y bartneriaeth, gan gynnwys gydag uwch staff y bartneriaeth, mentoriaid a myfyrwyr. Bydd y Pwyllgor yn disgwyl cyfarfod â chynrychiolwyr y bartneriaeth sy'n dod o amrywiaeth o ysgolion arweiniol ac ysgolion rhwydwaith.

Daw'r ymweliad i ben gyda chyfarfod o'r Pwyllgor Monitro i'w galluogi i benderfynu ar ganlyniad y monitro. Bydd cynrychiolydd y bartneriaeth yn cael ei wahodd i'r cyfarfod penderfynu olaf, ond ni all gymryd rhan yn y penderfynu.

Darperir amserlen enghreifftiol ar gyfer ymweliad monitro isod; fodd bynnag, bydd amserlenni'n unigryw i bob partneriaeth a bydd y Pwyllgor Monitro a'r bartneriaeth yn eu trafod cyn yr ymweliad monitro.

Amserlen enghreifftiol ar gyfer ymweliad monitro

DIWRNOD 1

9:00 – 9:30 **Cyfarfod y Pwyllgor Monitro**
9:30 – 10:15 **Deialog broffesiynol gydag uwch staff y bartneriaeth**
10:15 – 10:30 **Egwyl**
10:30 – 11:45 **Deialog broffesiynol gyda mentoriaid o ysgolion ar draws y bartneriaeth**
11:45 –12:15 **Cyfarfod y Pwyllgor Monitro**
12:15 – 13:00 **Cinio**
13:00 – 15:00 **Ymweliad â safle, gyda chyfle i drafod ag uwch fentoriaid a mentoriaid eraill a/neu weld gweithdai/seminarau**
15:00 – 15:45 **Cyfarfod y Pwyllgor Monitro *(myfyrio ac ôl-drafod)***

DIWRNOD 2

09:00 – 09:30 **Cyfarfod y Pwyllgor Monitro**
09:30 – 10:45 **Deialog broffesiynol gyda myfyrwyr**
10:45 – 11:00 **Egwyl**
11:00 – 11:45 **Cyfarfod y Pwyllgor Monitro**
11:45 – 13:00 **Cyfle i ddilyn i fyny gyda staff y bartneriaeth/cyfarfod "gofod diogel" i drafod heriau**
13:00 – 13:45 **Cinio**
13:45 – 15:00 **Cyfarfod y Pwyllgor Monitro i drafod penderfyniad**

5.4 (a) Trefniadau Interim ar gyfer Ymweliadau Monitro ym Mlwyddyn Academaidd 21/22

Mae CGA yn cydnabod bod pwysau sylweddol ar bartneriaethau ar hyn o bryd sy'n cynnwys, yn anad dim:

- Pwysau parhaus ar holl staff y bartneriaeth yn gysylltiedig â phandemig parhaus COVID-19.
- Dechrau cylch newydd o arolygiadau Estyn ym maes AGA.

I adlewyrchu hyn ac, fel rhan o weithredu'r ymagwedd newydd at reoleiddio ac arolygu ym maes AGA yng Nghymru, cynigir bod CGA a'r pwyllgorau monitro cysylltiedig yn mabwysiadu ymagwedd interim yn ystod Blwyddyn Academaidd 21/22, gan felly gydbwyso trylwyredd angenrheidiol trefniadau monitro gydag egwyddorion y system fonitro.

Ar gyfer Blwyddyn Academaidd 21/22, ymgymerir â'r trefniadau monitro ar gyfer partneriaethau AGA gyda'r diwygiadau canlynol i'r polisi hwn:

(a) Bydd Ymweliadau Monitro ar ffurf ymweliad diwrnod, y mae enghraifft wedi'i hamlinellu isod.

(b) Bydd y Pwyllgor Monitro yn parhau i asesu cynnydd yn Niwrnod 2. Er na fydd angen cyfarfodydd wedi'u strwythuro'n ffurfiol ar hyn, gellid ceisio eglurhad pellach gan y bartneriaeth pe bai'r angen yn codi.
(c) Ar gyfer y cyfnod hwn, ni fydd unrhyw fath o ymweliadau â safle nac arsylwi addysgu.
(d) Ni fydd angen cwblhau 'Templed crynhoi adroddiad newid ar gyfer rhaglen AGA achrededig'. Fodd bynnag, trwy'r ddeialog â phartneriaethau, mae'r Pwyllgor Monitro'n debygol o ofyn am fyfyrdod ar lwyddiannau a heriau ac unrhyw newidiadau. Mae'r holl ddata ac adroddiadau eraill a restrir yn Atodiadau A a B yn ofynnol o hyd.

DIWRNOD 1

9:00 – 9:30 Cyfarfod y Pwyllgor Monitro
9:30 – 10:15 Deialog broffesiynol ag uwch staff y bartneriaeth
10:15 – 10:30 Egwyl
10:30 – 11:45 Deialog broffesiynol gyda rhanddeiliaid o Ysgolion partneriaeth (yn cynnwys Penaethiaid, Mentoriaid ac unrhyw Rolau eraill).
11:45 12:00 Egwyl
12:00 – 13:00 Deialog broffesiynol gyda myfyrwyr
13:00 – 13:45 Cinio
13:45 – 15:00 Adolygiad o Ddogfennau gan y Pwyllgor Monitro
15:00 – 15:45 Cyfarfod y Pwyllgor Monitro *(myfyrio ac ôl-drafod)*
15:45 – 16:00 Egwyl
16:00 – 17:00 Cyfle i ddilyn i fyny gyda staff y bartneriaeth/cyfarfod "gofod diogel" i drafod heriau

5.5 Canlyniadau

Pan ddaw'r ymweliad monitro i ben, bydd y Pwyllgor yn penderfynu, ar sail y dystiolaeth a gasglwyd, a yw rhaglen(ni) y bartneriaeth yn parhau i gydymffurfio â'r Meini Prawf Achredu.

Mae CGA yn monitro partneriaethau ar lefel rhaglen ac mae canlyniadau posibl i raglenni unigol fel a ganlyn:

1. Mae'r Pwyllgor yn penderfynu bod y rhaglen wedi parhau i gydymffurfio â'r Meini Prawf Achredu. Gellid gwneud argymhellion pellach i gefnogi arfer da.
2. Mae'r Pwyllgor yn penderfynu bod diffyg cydymffurfio arwyddocaol â'r Meini Prawf Achredu ac mae'n ysgogi proses achos pryder CGA.

Bydd CGA yn rhoi gwybod i'r bartneriaeth am y canlyniad o fewn 15 diwrnod gwaith o wneud y penderfyniad.

5.6 Perthynas â phrosesau eraill

Perthynas ag (ail)achredu

- Bydd adroddiadau achredu llawn ac adroddiadau monitro amodau ar gael i'r Pwyllgor Monitro.
- Bydd adroddiadau o ymweliadau monitro'n cael eu darparu i'r pwyllgor ailachredu, i lywio'r broses.

Perthynas â phroses newid mawr

- Bydd y Pwyllgor Monitro'n cael gwybod am unrhyw ddogfennau newid mawr y mae partneriaeth wedi'u cyflwyno i CGA.
- Mae newidiadau mawr yn rhai y mae CGA wedi cael gwybod amdanynt, pan all y newid fod yn sylweddol berthnasol i statws achredu'r rhaglen.

Perthynas â'r broses achos pryder

- Gall canlyniadau'r broses achos pryder gael eu rhannu gyda phwyllgorau monitro a phwyllgorau ailachredu yn y dyfodol.
- Gallai'r broses achos pryder ysgogi tynnu achrediad yn ei ôl.

Perthynas ag Estyn a rhannu gwybodaeth

- Bydd swyddog(ion) CGA yn bresennol yn sesiynau adborth arolygiadau Estyn gyda phartneriaethau AGA.
- Bydd y Pwyllgor Monitro'n cael copi o adroddiad diweddaraf Estyn ar y bartneriaeth, a bydd adroddiadau diweddaraf Estyn ar ysgolion arweiniol ac ysgolion partner ar gael iddo.
- Bydd eitem ar agenda Estyn i'w diweddaru am ei waith ym mhob cyfarfod Bwrdd Achredu AGA.
- Bydd CGA yn rhoi copïau i Estyn o bob penderfyniad achredu ffurfiol, penderfyniadau monitro amodau, canlyniadau monitro a chanlyniadau achos pryder.
- Nid yw Estyn yn gwerthuso gwaith darparwyr unigol yn ystod gwaith thematig, felly ni fydd CGA yn cael unrhyw ddogfennaeth ffurfiol ar lefel bartneriaeth gan Estyn yn dilyn ei waith thematig. Ni fydd unrhyw wybodaeth y mae Estyn yn ei chasglu o ganlyniad i ymgysylltu thematig yn cael ei hystyried na'i defnyddio gan CGA fel rhan o fonitro nac ailachredu.

5.7 Ysgogiadau monitro cynnar neu fonitro ychwanegol

Os bydd CGA yn cael gwybod am ddiffyg cydymffurfio posibl â'r Meini Prawf Achredu, gellir trefnu ymweliad monitro cynnar neu ychwanegol i ymateb i'r meysydd diffyg cydymffurfio hyn. Mae ysgogiadau posibl monitro cynnar neu ychwanegol yn cynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:

- Newidiadau mawr i raglen AGA;
- Nodi achos pryder yn ystod proses fonitro arferol CGA;

- Adroddiadau Estyn;
- Atgyfeiriadau ffurfiol yn ysgrifenedig gan randdeiliaid eraill, fel awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, staff partneriaeth, myfyrwyr a CCAUC.

6 Amserlen fonitro CGA

Mae'r diagram isod yn dangos yr adeg pan fyddai monitro gan CGA yn digwydd yn nodweddiadol yn ystod cylch achredu pum mlynedd safonol.

Mae'r cylch achredu'n dechrau o 1 Medi ymlaen yn y flwyddyn achredu gyntaf a daw i ben ar 31 Awst yn y pumed flwyddyn.

6.1 Rhaglenni newydd ar gyfer achrediad cychwynnol

Cyn bod rhaglenni achrededig newydd yn dechrau a'u bod wedi bodloni unrhyw amodau achredu, mae cyfnod "arweiniol" o ryw 18 mis. Amlinellir hyn yn llawn yn arweiniad CGA ar gyfer cyflwyno rhaglen AGA.

6.2 Amserlen ar gyfer monitro rhaglenni AGA achrededig

Mae amseriadau gweithgarwch monitro ac ailachredu, o fewn cyfnod achredu pum mlynedd safonol, wedi'u cyflwyno yn y diagram isod:



7 Dewis iaith

Mae CGA yn sefydliad dwyieithog ac mae'n croesawu cyfranogiad yn Gymraeg gan bartneriaethau yn y broses fonitro. Bydd CGA yn gofyn i'r bartneriaeth am ddewisiadau iaith er mwyn caniatáu am wneud unrhyw drefniadau angenrheidiol.

8 Ffioedd Achredu

Mae pob rhaglen a gyflwynir i'w hachredu yn destun ffioedd achredu CGA. Mae rhestr ffioedd y mae'n rhaid i bartneriaethau sy'n cymryd rhan yn y broses achredu eu talu ar gael ar wefan CGA www.cga.cymru

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg
This document is also available in English

Atodiad A

Monitro gan CGA – Rhestr Wirio Tystiolaeth

I'w darparu gan CGA i'r Pwyllgor Monitro:

Adroddiad(au) achredu cychwynnol
Llythyr canlyniadau monitro amodau
Cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag amodau
Cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion pellach (os yw'n berthnasol)
Dogfen – amodau / themâu cyffredin a amlygwyd ar draws pob partneriaeth AGA
Adroddiad diweddaraf Estyn ar y bartneriaeth
Rhestr wedi'i diweddaru o ysgolion arweiniol ac ysgolion y bartneriaeth, a'u statws
Unrhyw gyflwyniadau am newid mawr/mân a ddaeth i law ers y cyfarfod monitro diwethaf
Data ar fyfyrwyr y bartneriaeth y mae CGA yn ei ddal: • Data recriwtio myfyrwyr fesul pwnc, y Gymraeg, ethnigrwydd, oedran • Data canlyniadau myfyrwyr yn ôl cwblhad, gradd, cyrchfan/cyflogaeth

I'w darparu gan y bartneriaeth:

Tystiolaeth ofynnol	**Dyddiad darparu olaf**	**Dyddiad cyrraedd**
Llawlyfr(au) Presennol y Rhaglen, neu gyfwerth		
Adroddiad(au) monitro mewnol blynyddol y rhaglen Fframwaith Sicrhau Ansawdd / proses hunanwerthuso a dogfen hunanwerthuso		
Adborth Ysgrifenedig gan fyfyrwyr ac ysgolion, gan gynnwys data craidd dienw ac unrhyw ddadansoddiad o'r data hwnnw.		
Copi o'r Cytundeb Partneriaeth neu'r Memorandwm Dealltwriaeth rhwng y brifysgol ac ysgolion		
Adroddiadau arholwyr allanol		
Templed/rhestr o ddata partneriaeth, er enghraifft: • Rhestr ysgolion wedi'i diweddaru. Newidiadau i ddewis y bartneriaeth/dat-ddewis • Data staffio'r bartneriaeth wedi'i ddiweddaru (gyda CVs cryno)		
Data myfyrwyr: • Recriwtio myfyrwyr fesul pwnc, y Gymraeg, ethnigrwydd, oedran ac ati. • Data canlyniadau myfyrwyr yn ôl cwblhad, gradd, cyrchfan/cyflogaeth • Rhestr o fyfyrwyr ym mlwyddyn olaf y rhaglen (ar gyfer rhaglenni israddedig, EBS neu ran-amser), gyda rhestr o ysgolion sy'n lleoliadau a'r barnau diweddaraf a wnaed yn erbyn cynnydd myfyrwyr. • Mynediad at y dogfennau canlynol yn gysylltiedig â sampl o 10 myfyriwr o leiaf:* o Tystiolaeth o wiriad y GDG o Memoranda Dealltwriaeth y mae eu hysgolion sy'n lleoliadau wedi cytuno arnynt a'u llofnodi. o Mynediad at PDP y myfyrwyr a'r system e-bortffolio (os yw'n wahanol) a fabwysiadwyd gan y Brifysgol o Enghreifftiau o aseiniadau ysgrifenedig Dylai CGA ddewis y data hwn ar sail rhestr ddienw o fyfyrwyr.		

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg
This document is also available in English

Atodiad B

Templed crynhoi adroddiad newid ar gyfer rhaglen AGA achrededig

Sut i lenwi'r ffurflen hon

1. Dylid llenwi'r ffurflen hon fel y bo'n briodol cyn yr asesiad monitro ac ailachredu a dylai nodi'r holl newidiadau i'r rhaglen AGA achrededig ers yr achrediad cychwynnol.

2. Llenwch bob adran berthnasol y ffurflen mor gryno â phosibl.

3. Os bydd newidiadau i fwy nag un rhaglen, nodwch y newidiadau penodol a wnaed i bob rhaglen.

4. Ar ôl i chi lenwi'r ffurflen hon, anfonwch hi drwy'r e-bost at CGA ar iteaccreditation@ewc.wales.

Adran 1: Manylion y Bartneriaeth

Enw'r bartneriaeth:

Teitl y rhaglen:

Cyflwynwyd gan (prif gyswllt y bartneriaeth): *(Enw, swydd, cyfeiriad e-bost a manylion ffôn)*

Llofnod electronig:

Dyddiad:

Adran 2:

Rhestrwch newidiadau sydd yn yr arfaeth neu rai a roddwyd ar waith i strwythurau a phrosesau'r rhaglen, o dan adran 4 y Meini Prawf Achredu, gan gynnwys:

- **Arweinyddiaeth a rheolaeth**
- **Ysgolion ac uwch staff yn y bartneriaeth**
- **Rolau/cyfrifoldebau a dysgu proffesiynol y mentor a staff y SAU**
- **Darpariaeth Gymraeg**

Rhowch y rhesymau dros newidiadau, gan gynnwys:

- **Data gwerthusol ar fyfyrwyr**
- **Adborth gan y mentor / staff y SAU**
- **Arall**

Newidiadau *(sydd yn yr arfaeth neu rai a roddwyd ar waith)*	**Rheswm dros y newid**	**Dyddiad/amserlen ar gyfer y newid**

Effaith y newid(iadau): *Disgrifiwch y newid yng nghyd-destun y Meini Prawf Achredu.*

Cwestiynau allweddol cyffredinol:
I ba raddau yr ydych o'r farn bod y newidiadau hyn wedi gwella, neu y byddant yn gwella, profiad dysgu'r myfyrwyr ar draws y bartneriaeth?
I ba raddau yr ydych o'r farn bod y newidiadau hyn wedi gwreiddio eich gweledigaeth ar gyfer AGA yn well ar draws y rhaglen, systemau a phrosesau, neu i ba raddau y bydd y newidiadau hyn yn gwreiddio'r weledigaeth yn well?
Pa feysydd y gall fod angen datblygiad strategol pellach arnynt?

Adran 3:

Rhestrwch newidiadau sydd yn yr arfaeth neu rai a roddwyd ar waith i fewnbynnau rhaglen, o dan adran 5 y Meini Prawf Achredu, gan gynnwys:

- **Prosesau recriwtio a dewis**
- **Dyluniad a chynnwys cyrsiau**
- **Y profiad ysgol**
- **Dysgu'r Gymraeg**

Rhowch y rhesymau dros newidiadau, gan gynnwys:

- **Data gwerthusol ar fyfyrwyr/ymgeiswyr**
- **Adborth gan y mentor / staff y SAU**
- **Data, neu dystiolaeth, berthnasol arall**

Newidiadau ***(sydd yn yr arfaeth neu rai a roddwyd ar waith)***	**Rheswm dros y newid**	**Dyddiad/amserlen ar gyfer y newid**

Effaith y newid(iadau): *Disgrifiwch y newid yng nghyd-destun y Meini Prawf Achredu.*

Cwestiynau allweddol cyffredinol:
I ba raddau yr ydych o'r farn bod y newidiadau hyn wedi gwella, neu y byddant yn gwella, profiad dysgu'r myfyrwyr o fewn y bartneriaeth?
I ba raddau yr ydych o'r farn bod y newidiadau hyn wedi gwreiddio eich gweledigaeth ar gyfer AGA yn well ar draws y rhaglen, systemau a phrosesau, neu i ba raddau y bydd y newidiadau hyn yn gwreiddio'r weledigaeth yn well?
Pa feysydd y gall fod angen datblygiad strategol pellach arnynt?

Adran 4:

Rhestrwch newidiadau sydd yn yr arfaeth neu rai a roddwyd ar waith i asesu athrawon dan hyfforddiant a deilliannau rhaglenni.

Rhowch y rhesymau dros newidiadau, gan gynnwys:

- **Data asesu/gwerthusol ar fyfyrwyr**
- **Adborth gan y mentor / staff y SAU**
- **Data, neu dystiolaeth, berthnasol arall**

Newidiadau ***(sydd yn yr arfaeth neu rai a roddwyd ar waith)***	**Rheswm dros y newid**	**Dyddiad/amserlen ar gyfer y newid**

Effaith y newid(iadau): *Disgrifiwch y newid yng nghyd-destun y Meini Prawf Achredu*

Cwestiynau allweddol cyffredinol:

I ba raddau yr ydych o'r farn bod y newidiadau hyn wedi gwella, neu y byddant yn gwella, profiad dysgu'r myfyrwyr ar draws y bartneriaeth?
I ba raddau yr ydych o'r farn bod y newidiadau hyn wedi gwreiddio eich gweledigaeth ar gyfer AGA yn well ar draws y rhaglen, systemau a phrosesau, neu i ba raddau y bydd y newidiadau yn gwreiddio'r weledigaeth yn well?
Pa feysydd y gall fod angen datblygiad strategol pellach arnynt?

Adran 5:

Rhestrwch newidiadau sydd yn yr arfaeth neu rai a roddwyd ar waith i strwythurau, systemau a phrosesau rhaglen o ganlyniad i bandemig Covid-19 a nodwch a fwriedir i'r newidiadau hyn fod yn rhai dros dro neu'n barhaol.

Newidiadau ***(sydd yn yr arfaeth neu rai a roddwyd ar waith)***	**Dyddiad y gwnaed y newid/Amserlen ar gyfer ei roi ar waith**

Effaith y newid(iadau): *Disgrifiwch y newid yng nghyd-destun y Meini Prawf Achredu. Mae'n bosibl yr hoffech gyfeirio hefyd at ganllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru yn yr adran hon.*

Cwestiynau allweddol cyffredinol:
I ba raddau yr ydych o'r farn bod y newidiadau hyn wedi gwella, neu y byddant yn gwella, profiad dysgu'r myfyrwyr o fewn y bartneriaeth?

I ba raddau yr ydych o'r farn bod y newidiadau hyn wedi gwreiddio eich gweledigaeth ar gyfer AGA yn well ar draws y rhaglen, systemau a phrosesau, neu i ba raddau y bydd y newidiadau yn gwreiddio'r weledigaeth yn well?
Pa feysydd y gall fod angen datblygiad strategol pellach arnynt?

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg
This document is also available in English